# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Blynyddol Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 9/05/2023 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin Roberts (Cad) | Mared Llywelyn Williams (Cad) | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gwynfor Jones |
| Lleucu Jones | Gareth Jones | Gito Williams | Janice Evans | Caren Jones |
| Carys Roberts | Alaw Llewelyn Roberts | Pat Humphreys (Clerc) | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Rhys Llewelyn, Dafydd Dobson a Rhian Sanson.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Gito Williams – cais cynllunio C23/0293/42/LL.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 11/04/2023
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Gwynfor Jones Eilio: Caren Jones
   Rhoddodd y Clerc ddiweddariad i'r Aelodau ar un o eitemau y mis diwethaf sef Maes Parcio Ffordd Dewi Sant.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   - **Ebost David Entwistle – cais am gyfraniad ariannol**

   Derbyniwyd ebost gan David Entwistle sef y person sydd yn mynd o amgylch yr ardal yn codi sbwriel yn wirfoddol, yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at offer codi sbwriel ar gyfer y gwirfoddolwyr pan fydd ei angen arnynt.
   Penderfyniad: Cytuno i roi cyfraniad mewn egwyddor ond bod angen mwy o wybodaeth cyn cyfrannu.
   - **Ebost Jina Gwyrfai – cynnig i newid rheolau Tai Teg**

   Cynnig yw hwn gan Cyngor Cymuned Pistyll i newid rheolau Tai Teg gan eu bod yn rhy gaeth ac yn atal pobol leol rhag adeiladu yn eu bro ac yn enwedig adeiladu ar dir sydd ym mherchnogaeth eu teulu.
   Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i gefnogi'r cynnig ac ychwanegu y dylid cysidro cael gwared a Tai Teg.
   - **Les Siop Siarad**

   Mae'r Clerc wedi derbyn ebost gan Bryn Martin yn ymwneud â Les Siop Siarad ac mae angen penderfynnu rhai pwyntiau cyn symud ymlaen i arwyddo'r Les. Cynnigiodd un o'r Aelodau siarad hefo perchennog Siop Siarad i geisio cytuno ar y pwyntiau yma er mwyn symud ymlaen i arwyddo'r Les a cytunodd pawb.
   - **Ebost Ysgol Botwnnog – cais am gyfraniad ariannol**

   Derbyniwyd ebost yn gofyn am gyfraniad ariannol i Glwstwr Ysgolion Ysgol Botwnnog gael stondin yn yr Eisteddfod eleni.
   Penderfyniad: Pasiwyd i roi cyfraniad o £500 iddynt.
   Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Gruffydd Williams

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes – 07967 556651

- **Mynwent Nefyn – gosod plac**

Cais yw hwn gan y Commonwealth War Graves Commision i osod plac (un yn Gymraeg ac un yn Saesneg) ym mynwent Nefyn i ddweud fod yna Feddau Rhyfel Lluoedd y Gymanwlad yno. Gan fod nifer o'r Aelodau ddim yn hapus hefo'r gair Cymanwlad cafwyd pleidlais ar y mater, roedd 3 o blaid a 9 yn erbyn felly pasiwyd i beidio rhoi y plac yma i fyny hefo'r geiriad yma arno. Os ydynt yn fodlon newid geiriad y plac i Beddau Rhyfel a War Graves yna nid oes gwrthwynebiad a penderfynwyd ar y lleoliad sef yr hen giat i'r hen ran o'r fynwent.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Caren Jones

**5. Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd**

Diolchodd y Cadeirydd presennol i'r Aelodau i gyd, ac i'r Clerc, am y gefnogaeth a gafodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sydd wedi gwneud ei swydd yn haws.
Cafwyd cynnig gan Gruffydd Williams i Mared Llywelyn Williams gymeryd y gadair gan ei bod yn is-gadeirydd ers blwyddyn ac eiliwyd y cynnig gan Catrin Roberts.
Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i gynnig y gader i Mared Llywelyn Williams ac fe dderbyniodd.
Cafwyd cynnig gan Catrin Roberts i Alaw Llewelyn Roberts fod yn is-gadeirydd ac eiliwyd y cynnig gan Mared Llywelyn Williams. Dywedodd Alaw Llewelyn Roberts ei bod yn mynd i ffwrdd i drafeilio ymhen 7 mis ond ei bod yn fodlon cymeryd y swydd tan yr amser hynny.
Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i Alaw Llewelyn Roberts fod yn is-gadeirydd am 7 mis ac fe dderbyniodd.
Pasiwyd yr awenau i'r Cadeirydd newydd a diolchodd i'r cyn Gadeirydd am ei gwaith a croesawyd y Cadeirydd â'r Is-gadeirydd i'w swyddi gan yr Aelodau.

**6. Aelodaeth yr Is-Bwyllgorau**

Mae'r Clerc wedi anfon rhestr aelodaeth yr Is-bwyllgorau i bawb cyn y pwyllgor ac ar ôl i'r aelod diweddaraf adael mae yna sedd wag ar bedwar Is-bwyllgor.
Penderfyniad: Gan fod yr aelod newydd ddim yma heno ei roi ar agenda mis nesaf a'r Clerc i'w anfon i bawb eto iddynt gael edrych arno cyn y cyfarfod nesaf.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gwynfor Jones

**7. Dogfennau'r Cyngor i'w adolygu a'u pasio:**

Rheolau Sefydlog, Rheolau Ariannol, Polisi Iaith, Polisi Cyfryngau Cymdeithasol, Ffioedd Claddu, Rheolau'r Mynwentydd, Asesiad Risc, Côd Ymddygiad Aelodau, Polisi Pryderon a Chwynion, Ffurflen Bryderon, Trefn Cwyno a Rhestr Asedau.
Cafodd bawb gopi o'r holl ddogfennau drwy ebost i'w darllen cyn y cyfarfod.
Penderfyniad: Pasiwyd y polisiau a'r dogfennau i gyd ac eithrio y Polisi Iaith presennol.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Catrin Roberts
Penderfynwyd i fabwysiadu Polisi Iaith a luniwyd gan Gyfeillion Llŷn gan ei fod yn cynnig gwell gwarchodaeth cyfreithiol i'r modd y mae cynghorau yn gweithredu trwy'r Gymraeg a gwneud i ffwrdd hefo un presennol y Cyngor Tref.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Gareth Jones

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes – 07967 556651

8. **Ffurflen Flynyddol CTN 2022-2023 ac Adroddiad yr Archwilydd Mewnol –** Clerc
Cafodd bawb gopi o'r Ffurflen Flynyddol ac Adroddiad Archwiliad Mewnol iddynt gael mynd drostynt cyn y pwyllgor. Fe aeth y clerc drwy'r risciau a godwyd gan yr Archwilwyr yn eu adroddiad, ac maent yn mynd i gael eu trafod yn y pwynt nesaf.
Penderfyniad: Cymeradwywyd Ffurflen Flynyddol 2022-2023.
Cynnig: Gwynfor Jones Eilio: Gareth Jones

9. **Adroddiad Blynyddol 2022-2023 a Cynllun Hyfforddiant –** Clerc
Ar ôl i'r Clerc anfon y Ffurflen Flynyddol i'r Archwilwyr Mewnol y mis diwethaf fe gafodd restr o bethau yr oeddent eu hangen i gwblhau'r archwiliad ac roedd dau beth newydd ar y rhestr sef Adroddiad Blynyddol a Cynllun Hyfforddiant ac maent wedi cael eu rhoi fel pwyntiau sydd angen sylw ar Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol 2022-2023. Nid oedd y Clerc yn ymwybodol bod angen eu paratoi ar gyfer archwiliad 2022-2023 ac felly nid oeddent wedi cael eu gwneud pan basiwyd y Ffurflen Flynyddol gan yr Archwilwyr Mewnol. Mae'r Clerc wedi paratoi Cynllun Hyfforddiant ac Adroddiad Blynyddol ar gyfer blynyddoedd 2022-2023 ers hynny gyda'r bwriad o'u hanfon at yr Archwilwyr mewnol er mwyn ceisio eu tynnu oddi ar yr Adroddiad os yw'r Aelodau yn hapus i'w pasio a'u mabwysiadu heno.
Penderfyniad: Pasiwyd a mabwysiadwyd y Cynllun Hyfforddiant.
Cynnig: Catrin Roberts Eilio: Arfon Hughes
Penderfyniad: Pasiwyd a mabwysiadwyd yr Adroddiad Blynyddol.
Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Caren Jones

10. **Llygredd ar y traeth yn Morfa – Diweddariad -** Gareth Jones
Cafwyd diwedddariad gan yr aelod lleol ar ôl iddo gysylltu hefo Dafydd Williams Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd, Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'r broblem. Mae Dŵr Cymru wedi ymateb drwy ddweud fod ansawdd y dŵr ymdrochi o safon uchel ac yn cael ei fonitro gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn flynyddol. Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru oedd bod lefelau bacteria yn y dŵr drost y pedair blynedd ddiwethaf yn dda iawn, gyda gradd ardderchog, yn unol â'r rheolau safonau Sefydliad Iechyd y Byd, ac felly mae ansawdd y dŵr ar draeth Morfa Nefyn yn addas ar gyfer Baner Las. Diolchwyd i'r aelod lleol am fynd ar ôl hyn a cytunwyd i gadw golwg ar y sefyllfa yn y dyfodol.

11. **Y Llyfrgell – cais i gael gwared a'r toiled staff – Diweddariad –** Clerc
Cafwyd diweddariad gan y clerc sef bod Cyngor Gwynedd wedi cysylltu yn dweud bod CTN yn gyfrifol am dalu am y newidiadau yma a bod angen cael caniatad gan yr Adran Eiddo cyn cychwyn ar y gwaith.
Penderfyniad: y Clerc i lenwi y ffurflen C1 i'r Adran Eiddo er mwyn cael caniatad am y gwaith.

12. **Meinciau –** Cadeirydd
Mae meinciau Morfa wedi eu gosod yn eu lle ac yn edrych yn dda iawn.
Mae'r llecyn ar gyffordd Lôn yr Eglwys lle mae'r hen fainc wedi cael ei dorri ond ddim yn dda iawn ac mae'r gwellt sydd o amgylch y potiau blodau wedi cael ei adael nes ei fod wedi tyfu yr un uchder

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes – 07967 556651

a'r potiau felly mae'r Clerc am gysylltu hefo'r contractwr torri gwellt i ofyn wrtho fynd yno i'w dorri a gwneud yn saff o hyn allan i symud y potiau a torri'r gwellt yn iawn.

13. **Meinciau Edern –** Caren Jones
Mae dwy fainc wedi cael eu archebu yn barod ar gyfer y Groesffordd yn Edern ers y 25ain o Ebrill ac yn mynd i gymeryd 8 wythnos i gael eu gwneud a cais yw hwn i gael un arall yn lle y fainc sydd wedi malu drost y ffordd i'r tai Cyngor a'i rhoi wrth y Gôf Golofn. Mae yna gais hefyd i gadw'r hen feinciau sydd ar y Groesffordd gan fod un ohonynt yn fainc y capel ac felly mae'r Clerc am gysylltu hefo un o aelodau Edern pan fydd y meinciau newydd yn cael eu gosod. Mae'r goeden sydd ar y Groesffordd wedi tyfu yn anferth felly mae'r aelod lleol am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn i rhywun fynd yno i'w thorri.
Penderfyniad: y Clerc i ychwanegu un mainc arall i'r archeb sydd eisioes wedi ei gyflwyno ar gyfer Edern.
Cynnig: Gwynfor Jones   Eilio: Carys Roberts

14. **Anrheg –** Cadeirydd
Mae yna flwyddyn wedi pasio ers i'r cyn Gadeirydd adael CTN ac nid yw ei anrheg wedi cael ei orffen eto sydd yn gwilydd mawr felly mae'r Cadeirydd presennol am fynd ar ôl hyn ac os nad yw'r artist wedi cychwyn ar y gwaith yna penderfynwyd i gael hyd i rhywun arall i'w wneud.

15. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
- **Cais am gyfraniad ariannol gan Clwb Pel-droed Nefyn Unedig**

Cais yw hwn am gyfraniad ariannol i wella y cae presennol er mwyn iddynt gael eu dyrchafu i haen 3 y gyngrair.
Penderfyniad: Rhoi £3000.00 iddynt tuag at y gwaith a gofyn iddynt roi diweddariad i CTN ar sut mae casglu gweddill yr arian yn mynd.
Cynnig: Gareth Jones   Eilio: Gruffydd Williams

- **Cais gan Ganolfan Gymdeithasol Edern am gynrychiolydd CTN ar y pwyllgor**

Mae pwyllgor Canolfan Gymdeithasol Edern angen aelodau newydd ar y pwyllgor ac yn gofyn i CTN am gynrychiolydd.
Penderfyniad: Mae dau o aelodau Edern wedi cytuno i fod ar y pwyllgor ac mae'r Clerc am adael iddynt wybod.

16. **Ceisiadau Cynllunio**
Dim.

Ceisiadau Diweddarach

- **C23/0293/42/LL** – Arosfa, Edern – Cais llawn i ddymchwel strwythurau presennol a chodi tŷ newydd gyda gwaith cysylltiol.

Penderfyniad: Sylwadau – mae Cyngor Tref Nefyn yn mynegi pryder am uchder y dyluniad a preifatrwydd y cymdogion.
Cynnig: Caren Jones   Eilio: Carys Roberts

- **C23/0310/42/DT** – Môr a Mynydd, 41 Bro Gwylwyr, Nefyn – Cais ar gyfer darparu ffenestr cromen ar yr edrychiad blaen.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Catrin Roberts

- **C23/0356/42/LL** – Clwb Golff Nefyn, Lôn Golff, Morfa Nefyn – Cais am estyniad i ardal patio allanol presennol.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Caren Jones Eilio: Gwynfor Jones

**17. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1301.24
- Ashley Hughes - £53.40
- Zurich Municipal - Yswiriant 2023-2024 - £2446.82
- Gwynedd Roberts – gwneud a gosod y cwpwrdd arddangos, rhoi y llun i fyny a gosod drws tân newydd yn Siop Siarad - £750.00
- Bacstal - Gwasanaeth Cyflogau - £139.50
- John Gwynfor Jones – Angladd Malcolm John Thomas - £450.00
- D M Parry – Taliad cyntaf mynwent Edern a Morfa Nefyn - £750.00
- Alan Adams – ail daliad cytundeb llwybrau & gwaith ychwanegol - £1290.00
- HMRC – PAYE Mis 1 - £139.31
- Zoom – tanysgrifiad blynyddol (ad-daliad i'r clerc) - £143.88
- Npower – Trydan Llyfrgell mis Ebrill - £231.47

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gwynfor Jones

**18. Taliadau wedi eu derbyn**

- Ad-daliad TAW 2022-2023 - £5,584.71
- Praesept – taliad cyntaf - £43,500.00

Mae un o'r aelodau wedi cael pris gan y gôf lleol am wneud stand i ddal y torchau yn Morfa Nefyn sef £210.00 + Vat.
Penderfyniad: derbyn y pris a'r aelod i adael iddo wybod.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gareth Jones

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes – 07967 556651